

Datganiad Gwasanaeth Cyfranogiad@BywydCampws

Gweledigaeth

Mae'r Cyfranogiad@BywydCampws yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i fyfyrwyr sy'n ymadawyr gofal neu sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd ym Mhrifysgol Abertawe. Y Swyddog Mynediad Cyfranogiad@BywydCampws fydd y cyswllt cyntaf i fyfyrwyr sy'n dymuno dod i Brifysgol Abertawe a chyrchu pecynnau cymorth perthnasol, gan godi proffil yr ymadawyr gofal a myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd yn y Brifysgol. Bydd yn cymryd yr awenau wrth ddatblygu a darparu digwyddiadau niferus a mentrau cymorth.

Fel rhan o BywydCampws, Cyfranogiad@BywydCampws yw cefnogi amcanion y Brifysgol o ran recriwtio, ehangu cyfranogiad, cadw a chynnydd, ac mae'n **ymroddedig i helpu myfyrwyr i gyflawni eu potensial yn llawn ac i wella eu profiad fel myfyrwyr.**

Cenhadaeth

Ein cenhadaeth ni yw y bydd pob myfyriwr sy'n gadael gofal ac sydd wedi'i ddieithrio o'i deulu ym Mhrifysgol Abertawe yn derbyn lefel arbenigol o gyngor ac arweiniad, ynghyd â mynediad at y pecynnau cymorth perthnasol, gan sicrhau eu bod nhw wedi'u harfogi â rhwydwaith cymorth wedi'i deilwra a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer amser llwyddiannus a boddhaus ym Mhrifysgol Abertawe. Byddwn yn gwneud hyn drwy:

1. Gyfrannu at genhadaeth Prifysgol Abertawe *i ddarparu profiad neilltuol* i fyfyrwyr drwy weithio mewn partneriaeth ag adrannau academiaidd, gwasanaethau canolog eraill ac *Undeb y Myfyrwyr i gynig gwasanaeth* proffesiynol a hygyrch o ansawdd.
2. Ymdrechu i fod yn fodel arweiniol o ran ymagweddau newydd tuag at fentrau sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr wrth i ni dyfu i ddiwallu anghenion cynyddol ein corff myfyrwyr hynod amrywiol.
3. Gwerthuso barn y myfyrwyr sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd i gynyddu ymwybyddiaeth o anghenion myfyrwyr ac i fonitro effeithiolrwydd cyffredinol y gwasanaeth a ddarperir.
4. Gwella gwybodaeth, sgiliau a gallu staff drwy ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Ein Gwerthoedd

Mae BywydCampws yn gweithredu'n unol â set ddiffiniedig o Werthoedd Craidd, a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o adeg gwneud cais am swydd i gyflawni'u rôl o ddydd i ddydd.

Ein Gwerthoedd:

Rydym yn Broffesiynol: Rydym yn ymfalchïo mewn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein creadigrwydd, ein gonestrwydd a'n doethineb i ddarparu gwasanaethau arloesol, effeithiol ac effeithlon ynghyd ag atebion o safon ardderchog.

Rydym yn Cydweithio: Rydym yn ymfalchïo mewn amgylchedd gweithio rhagweithiol a chydweithredol o gydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch, cydweithio a her, i ddarparu gwasanaethau sy'n ceisio rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid.

Rydym yn Ofalgar: Rydym yn derbyn cyfrifoldeb am wrando ar ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd, eu deall ac ymateb yn hyblyg iddynt, fel bod pob cysylltiad rhyngddyn nhw a ni yn brofiad personol a chadarnhaol.

Y Tîm



Yr hyn rydym yn ei gynnig

- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynghylch pecynnau cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n gadael gofal neu sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd yn Niwrnodau Agored Prifysgol Abertawe.
- Cymorth drwy gydol y broses gwneud cais a phontio i Addysg Uwch, drwy:
 - Ateb cwestiynau am astudio ym Mhrifysgol Abertawe
 - Trefnu ymweliadau cyn mynediad â'r Brifysgol
 - Atgyfeirio myfyrwyr at gyngor ac arweiniad, cymorth academiaidd a sgiliau astudio
 - Cefnogi ceisiadau ar gyfer llety'r Brifysgol
 - Ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol ac Ymgynghorwyr Personol lle bo angen
- Pecyn cymorth wedi'i deilwra i fyfyrwyr sy'n gadael gofal neu sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd a chymorth wrth wneud cais am fwsariaethau prifysgol perthnasol, e.e. Bwsariaethau myfyrwyr sy'n gadael gofal neu sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd.
- Cymorth ar-lein parhaus drwy e-byst, dros y ffôn ac apwyntiadau i drafod problemau a allai fod wedi codi ac atgyfeirio at y gwasanaethau cymorth perthnasol yn y Brifysgol.
- Cylchlythyron, gweithgareddau ymgysylltu a digwyddiadau gwybodaeth penodol rheolaidd i fyfyrwyr sy'n gadael gofal a myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd, yn mynd i'r afael â phynciau megis; mae pecynnau cymorth, cyngor ar yrfaedd, sgiliau bywyd a chymorth ychwanegol ar gael yn y Brifysgol a'r tu hwnt iddi.
- Mae cysylltiadau effeithiol a phrosesau atgyfeirio gyda gwasanaethau cymorth, Go Wales, Tîmoedd Gwybodaeth i Fyfyrwyr y Coleg ac asiantaethau allanol yn gymorth i fyfyrwyr ac yn gwella darpariaeth ar draws y Brifysgol.
- Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth i staff a myfyrwyr ar draws y Brifysgol, gan wella dealltwriaeth o broblemau mae myfyrwyr sy'n gadael gofal ac sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd yn eu hwynebu.
- Rhaglenni priodol ar y cyd â'r Bartneriaeth Ymgynghorwyr yn Ehangach De-orllewin Cymru i annog myfyrwyr sy'n gadael gofal ac sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd i fod yn uchelgeisiol ac i gyflawni drwy weithgareddau perthnasol, yn unol â Strategaeth Allgymorth a Recriwtio Myfyrwyr y Brifysgol.

Beth gallwch ei ddisgwyl

- Cyngor gwybodus, diduedd, anfeirniadol a chyfrinachol.
- Derbynfa BywydCampws ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9.00am a 4.45m yn ystod y tymor a chyfnodau o wyliau.
- Staff cymwynasgar a chroesawgar sy'n diweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau drwy ddatblygiad proffesiynol a mynychu digwyddiadau hyfforddi perthnasol.
- Darperir gwybodaeth, cyngor ac arweiniad drwy'r ffyrdd canlynol:
 1. Mae apwyntiadau cyfrinachol ar gael ar Gampws Singleton ac ar Gampws y Bae, neu mae apwyntiadau rhithwir ar gael drwy alwadau fideo.
 2. Mae cyfeiriad e-bost pwrpasol ar gyfer y Swyddog Mynediad: accessofficer.campuslife@abertawe.ac.uk. Ymdrechwn i ateb pob ymholiad drwy e-bost o fewn tri diwrnod gwaith.
 3. Ateb cwrtais a phroffesiynol ar unwaith pan fyddwch yn ein ffonio. Os nad ydym ar gael ar y ffôn yn ystod yr oriau a hysbysebwn, ymdrechwn i dychwelyd eich galwad o fewn tri diwrnod gwaith os byddwch yn gadael neges.
 4. Rydym yn ymateb i ymholiadau drwy'r post o fewn tri diwrnod gwaith.
 5. Mae gennym gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar Facebook, Twitter ac Instagram i ryngweithio â'n gwasanaeth ac ymgysylltu â'r newyddion diweddaraf, rhoi gwybodaeth am ddigwyddiadau a chyfeirio at BywydCampws ac adnoddau allanol (nid ydym yn cynnig cyngor ac arweiniad penodol drwy ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol):
 - Facebook: <https://www.facebook.com/CampusLifeSU/>
 - Twitter: <https://twitter.com/campuslifesu>
 - Instagram: <https://www.instagram.com/campuslifesu/>
- Mynediad at wybodaeth am gyllid myfyrwyr, ein gwasanaethau a'n horiau agor ar ein gwefan, y caiff ei gwirio a'i diweddarau'n rheolaidd: <https://www.swansea.ac.uk/cy/astudio/adran-gwasanaethau-cymorth-i-fyfyrwyr/bywydcampws/cyfranogiad-bywydcampws/>
- Cylchlythyr rheolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi, ynghyd â gwybodaeth ac adnoddau perthnasol a chyfoes. Gall myfyrwyr ddewis i beidio â derbyn y cylchlythyr ac ni fydd hyn yn effeithio ar eu mynediad at wybodaeth a chymorth.
- Tafenni gwybodaeth atodol dwyieithog sy'n cynnwys pynciau amrywiol, gan gynnwys ein pecynnau cymorth, cyngor ar yrfaeodd a chymorth ychwanegol sydd ar gael yn y Brifysgol.
- Cyflwyniadau/gweithdai ar becynnau cymorth sydd ar gael, a sut gall staff a myfyrwyr gefnogi'r rhai hynny sy'n gadael gofal neu sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd drwy gydol eu hamser ym Mhrifysgol Abertawe.
- Atgyfeirio at ffynonellau gwybodaeth a chyngor eraill, yn fewnol ac yn allanol, lle bo'n briodol.
- Cyfle i roi adborth a sylwadau ar y gwasanaeth ac i wneud awgrymiadau neu argymhellion ar gyfer gwella.
- Os bydd aelod staff yn absennol, bydd neges 'allan o'r swyddfa' (dwyieithog lle bo modd) yn nodi pryd y bydd yn dychwelyd i'r swyddfa ac â phwy y dylech gysylltu yn ei absenoldeb.
- Ymdrechu i roi gwybod efallai na fyddwn yn gallu bodloni'r holl safonau gwasanaeth yn ystod cyfnodau prysur.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

- Disgwylwch i chi roi gwybod i ni o flaen llaw os byddwch chi'n hwyr neu os na fydd modd i chi ddod i'ch apwyntiad neu ddisgwyddiad a drefnwyd o flaen llawn gennych.
- Dod ag unrhyw ddogfennau perthnasol i'n helpu i ddarparu'r cyngor a'r wybodaeth briodol i ddiwallu'ch anghenion.
- Rhaid i chi ystyried yr holl gyngor ac arweiniad a roddir, ac ystyried gweithredu ar y camau nesaf rydym yn eich cynghori i'w cymryd.
- Trin staff y gwasanaeth â pharch yn unol â rheoliadau a chodau ymddygiad y Brifysgol.
- Eich bod chi'n rhoi gwybod i ni o flaen llaw am ystyriaethau ychwanegol/gofynion penodol y gallai fod eu hangen arnoch.
- Eich bod chi'n ymateb i ymholiad ysgrifenedig, dros y ffôn neu e-bost am wybodaeth yn brydlon/erbyn y dyddiad cau a bennwyd.
- Eich bod chi'n cymryd perchnogaeth am dasgau academiaidd, megis cyflwyno aseiniadau, bod yn bresennol mewn arholiadau a chwblhau gwaith papur academiaidd, e.e. ffurflenni amgylchiadau esgusodol.
- Ein hysbysu am newid o ran eich amgylchiadau cyn gynted â phosib er mwyn i'r Swyddog Mynediad sicrhau eich bod chi'n derbyn yr holl gymorth perthnasol a chymwys.
- Rhoi gwybod i ni am newid yn eich manylion cyswllt, gan gynnwys newid cyfeiriad neu newid cyfeiriad e-bost.

Ni allwn roi cymorth i chi gyda

- Chyngor neu gynrychiolaeth gyfreithiol.
- Eiriolaeth mewn Byrddau Prifysgol neu Wrandawiadau Apêl.
- Cymorth i lenwi ffurflenni cais am fudd-daliadau (e.e. Budd-dal Tai, DLA, JSA ac ati).
- Cadarnhau eich statws fel myfyriwr sy'n Ymadawr Gofal neu fyfyrwr sydd wedi Ymddieithrio ar wahân i lythyr / e-bost cyffredinol sy'n nodi eich cymhwysedd i gyrchu'r cymorth sydd ar gael yn y Brifysgol.
- Cyngor/cymorth parhaus i raddedigion nad ydynt yn cymryd rhan yn llawn mewn cyfleoedd gyrfa drwy GO Wales neu Academi Cyflogadwyedd Abertawe.
- Rheolaeth uniongyrchol digwyddiadau difrifol ac achosion brys. Dyma gyfrifoldeb gwasanaethau statudol, megis yr Heddlu a'r GIG. Nid yw BywydCampws yn darparu swyddogaeth ymateb mewn argyfwng, er bod staff fel arfer yn chwarae rôl yn dilyn digwyddiadau sy'n ymwneud â lles neu ddisgyblaeth myfyrwyr, gan gynnig cyngor a chymorth i'r bobl dan sylw.

Adborth

Rydym yn gwerthfawrogi adborth myfyrwyr, cydweithwyr a rhanddeiliad eraill. Rydym yn gwerthfawrogi eich barn, boed yn dda, yn ddrwg neu'n gofyn cwestiwn. Helpwch ni i wella ein gwasanaeth yn barhaus drwy gynnig eich sylwadau a'ch awgrymiadau drwy e-bost a thrwy ymateb i'n ceisiadau am adborth drwy arolygon rheolaidd a sesiynau grŵp ffocws.

Nid ydym yn rhannu'r wybodaeth a ddarperir gennych chi gydag unrhyw drydydd parti a byddwn yn ei diogelu yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

Os hoffech chi roi adborth mewn perthynas â'n gwasanaeth, cysylltwch ag:

Alison Maguire

Rheolwr – Arian@BywydCampws & Cyfranogiad@BywydCampws

E-bost: a.d.maguire@abertawe.ac.uk

Cysylltu â ni

Access Officer / Swyddog Mynediad

Prifysgol Abertawe | Swansea University

CampusLife / BywydCampws

Adeilad Keir Hardie / Keir Hardie Building

Parc Singleton / Singleton Park

Abertawe | Swansea

SA2 8PP

E-bost / Email: accessofficer.campuslife@abertawe.ac.uk